Rhannu'n deg

Cysyniadau:	**Cyfiawnder, dyfalbarhad, gofal, hunan aberth, rhannu.**
Amcan:	**Dangos pwysigrwydd Wythnos Cymorth Cristnogol a'n dyhead i helpu eraill.**
Cyfarpar:	**Amlen goch Cymorth Cristnogol. Fferins a 5 plât.**

Cyflwyniad:

● Ydych chi wedi gweld yr amlen hon o'r blaen? Efallai y bydd rhai o'r plant wedi'i gweld yn y capel/eglwys neu wedi dod drwy'r drws. Yn ystod wythnos arbennig bob mis Mai bydd casgliad yn cael ei wneud i helpu pobl mewn angen. (Os yn bosib gellir cysylltu'n uniongyrchol â Swyddfa Cymorth Cristnogol yng Nghaerdydd.)

Dyma ychydig o ffeithiau am Cymorth Cristnogol:

● Mae Cymorth Cristnogol Cymru yn cydweithio â mudiadau ieuenctid, ysgolion, cymunedau ac eglwysi mewn dros 40 o wledydd.

● Mae aelodau o dîm Cymorth Cristnogol Cymru yn ymweld ag eglwysi ac ysgolion ledled Cymru i siarad am eu gwaith.

● Pob mis Mai bydd Cymorth Cristnogol Cymru yn casglu arian ledled Cymru i helpu pobl mewn angen mewn gwledydd eraill.

● Nid ar gyfer Cristnogion yn unig y maen nhw'n casglu ond ar gyfer pawb, i pa bynnag grefydd maen nhw'n perthyn neu ddim crefydd o gwbl.

Tasg:

Gwahodd pump o blant i ddod allan a rhoi plât i bob un ohonyn nhw. Rhannu fferins yn gyfartal ar bob plât yn ei dro. Gwneud hyn deirgwaith neu bedair.

Newid y patrwm a rhoi mwy i un plentyn a'r lleill i gael dipyn llai. Erbyn y diwedd bydd un plentyn wedi cael llawer mwy na'r lleill.
● Holi'r plant ydi hyn yn deg?

Trafodaeth bellach:
● Trafod fel y mae rhai gwledydd yn cael mwy na'r lleill. Mae'n bur debyg y bydd y plant yn gwybod am angen plant mewn gwledydd fel Affrica. Plant sydd heb ddim byd. Dim cyfle i fynd i ysgol. Dim dillad, dim bwyd a diod. Dim arian. Gorfod byw ar gardod. Dyna pam fod arian Cymorth Cristnogol yn cael ei rannu ymhlith y gwledydd tlotaf yn y byd.

● Rydyn ni'n cael mwy na digon. Os byddwn angen bwyd fe allwn fynd i'r siop neu'r archfarchnad. Angen dillad – mynd i'r siop neu archebu ar y we. Cael ein dysgu yn yr ysgol. Cartref i fynd iddo a rhieni i ofalu amdanom.

● Dangos fel roedd un plentyn wedi cael gormod o fferins ac un neu ddau wedi cael dau neu dri. Gofyn ydi hyn yn deg? Sut felly y dylid rhannu'r fferins? Gadael i'r plant rannu'r fferins ymhlith ei gilydd fel bod pob un yn cael yr un faint.

● Yn ystod yr wythnos hon bydd pobl yn mynd o gwmpas y tai i gasglu at Cymorth Cristnogol. Efallai eich bod wedi gweld yr amlen goch wedi dod drwy'r blwch postio. Dyma i chi beth oedd profiad dau o'r casglwyr, sef y bobl sy'n casglu'r amlenni coch.

Judith:
Rydw i newydd adael y coleg ac wedi dechrau fel athrawes yn yr ysgol leol. Fe ofynnwyd i mi fuaswn i'n gwirfoddoli i fynd o gwmpas y pentref i rannu a chasglu amlenni Cymorth Cristnogol. Ar nos Lun roeddwn i'n rhannu'r amlenni o ddrws i ddrws gan ddweud y byddwn i'n ôl ar y nos Wener i'w casglu. Penderfynodd rhai roi arian yn yr amlenni ar y nos Lun i hwyluso'r gwaith i mi. Felly doedd dim rhaid i mi ddychwelyd ar y nos Wener. Ond ar y nos Wener roeddwn ar fy

nhaith unwaith eto, o ddrws i ddrws. Roedd pawb yn ddigon annwyl ac yn barod iawn i roi. 'Fedrwn i ddim byw yn fy nghroen heb roi ryw ychydig i bobl sydd heb ddim byd,' meddai un wraig oedrannus. 'Ar fy mhensiwn ydw i, ond mi ydw i wedi rhoi £10 yn yr amlen i helpu pobl eraill.'

Illtud:
Gweithio i'r cyngor lleol oeddwn i tan yn ddiweddar. Mi ydw i newydd ymddeol ac mi ofynnodd y gweinidog fuaswn i'n gwirfoddoli i rannu amlenni Cymorth Cristnogol. Mi roeddwn i wrth fy modd fod rhywun wedi gofyn i mi wneud er mwyn helpu pobl mewn angen. Croeso cymysg ges i. Rhai yn barod i roi, eraill yn amharod ac yn rhoi'r amlen yn ôl i mi gan ddweud, 'Eisiau iddyn nhw chwilio am waith sydd er mwyn ennill arian i gael bwyd.' Un arall yn dweud, 'Does gen i ddim amser wir, mi ydw i wedi colli'r amlen ac mae'r wraig yn dweud bod y swper ar y bwrdd.'

Trafodaeth bellach:

- Sut groeso gafodd Judith? Beth am y wraig roddodd £10?

- Sut groeso gafodd Illtud? Beth am y gŵr oedd wedi colli'r amlen?

Meddai Iesu Grist:

'Rwyt i garu dy gymydog fel rwyt ti'n dy garu dy hun.' Luc 10:27 beibl.net

Emyn: Rhown gymorth: Mwy o Glap a Chân 49

Munud i feddwl:

Pan fo un cymydog yn helpu'r llall bydd cymunedau yn cael eu creu a'u cadarnhau.

Myfyrdod/Gweddi:

Mae'n rhaid i mi helpu pawb sydd mewn angen. Fedra i ddim peidio. Fedra i mo'u hanwybyddu. Mae'n rhaid i mi wneud. O Dduw, wnei di fy helpu? Amen.